

Ffitiau / epilepsi



Cardiau chwarae rôl: **Ffitiau / epilepsi**

Beth sy'n digwydd?

Mae trip bws ysgol neu goleg wedi oedi mewn gorsaf wasanaeth. Mae pawb yn treulio amser yn y brif ardal ger y siop a'r siopau bwyd.

Cardiau chwarae rôl:
Ffitiau / epilepsi

Syniadau

- Gwisgwch ddillad (fel crys chwys, côt, siwmpwr neu hwdi) y gallech eu defnyddio i amddiffyn pen yr unigolyn.

Rolau

- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.

Sesiwn ôl-drafod

- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i'r un sy'n cael trawiad? Pa arwyddion o drawiad a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

Cardiau chwarae rôl: **Ffitiau / epilepsi**

Unigolyn yn cael trawiad - myfyriwr

Mae'r unigolyn hwn yn syrthio'n sydyn i'r llawr yn anymwybodol. Mae ei freichiau a'i goesau'n mynd yn anystwyth ac mae'n dechrau ysgwyd a tharo ei ben o gwmpas. Mae ei lygaid yn rhoio'n ôl ac mae ei ên yn cau'n dynn. Ar ôl ychydig, mae hyn yn stopio ac mae ei gorff yn ymlacio eto. Mae'n mynd i gysgu.

Sylwch: Byddwch yn ofalus os ydych chi'n dewis actio hyn rhag i chi anafu eich hun. Byddwch yn gall ac yn barchus. Gallwch orwedd ar y llawr a disgrifio'r symptomau.

Cardiau chwarae rôl: **Ffitiau / epilepsi**

Myfyriwr - cynorthwydd

Mae'r unigolyn hwn ar driip ysgol. Mae'r bws wedi stopio mewn gorsaf wasanaeth am seibiant. Mae'n eistedd gyda ffrind y tu allan i'r bws, ac maent yn sylwi ar fyfyriwr arall sy'n disgyn ar y llawr wrth ddod oddi ar y bws. Mae'r myfyriwr yn aflonydd ac yn symud yn rhyfedd.

Mae ei ên wedi cau'n dynn ac mae ei lygaid yn rowlio'n ôl. Mae llawer o bobl o gwmpas, ond nid yw'n adnabod llawer ohonynt. Nid yw'n gwybod ble mae'r athrawon. Mae'n dweud wrth bawb am symud yn ôl ac yn rhoi côt o dan ei ben. Nid yw'n gwybod a oes gan y myfyriwr hwn epilepsi ai peidio, a gan nad oes athrawon o gwmpas, mae'n ffonio 999.

Cardiau chwarae rôl: **Ffitiau / epilepsi**

Myfyriwr - gwyliwr

Mae'r unigolyn hwn hefyd ar driip ysgol. Mae'n eistedd gyda ffrind, ac yn sylwi bod myfyriwr arall wedi syrthio ar lawr. Mae'r unigolyn yn aflonydd ac yn symud yn rhyfedd. Mae ei ên wedi cau'n dynn ac mae ei lygaid yn rowlio'n ôl.

Mae llawer o bobl o gwmpas, ond nid oes neb yn gwneud unrhyw beth ac eithrio ei ffrind. Mae'n ymddangos bod ei ffrind yn gwybod beth mae'n ei wneud.